

# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghonwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

# Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghonwy

**Nod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (y Gronfa) yw gwella balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU, drwy fuddsoddi mewn cymunedau a lleoedd, cefnogi busnesau lleol, a phobl a sgiliau.**

Yn ystod 2022-25, dyrannwyd cyfanswm o £126.46 miliwn gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (y Gronfa) yng ngogledd Cymru, gan gynnwys Sir Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam.

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfanswm o £24,520,120 gan y Gronfa er mwyn darparu canlyniadau i breswylwyr, busnesau a chymunedau.

Ar ddechrau 2023, gwahoddwyd sefydliadau i gyflwyno ceisiadau, a dyrannwyd cyllid i 33 o brosiectau craidd yng Nghonwy.

Mae'r cyllid wedi cefnogi amrywiaeth eang o brosiectau yn ymwneud â chyflogadwyedd, sgiliau, ymestyn a darparu gwasanaethau, cymorth i fusnesau, lleihau carbon, pobl ifanc, gwella isadeiledd ac asedau, treftadaeth, diwylliant, twristiaeth a diogelwch cymunedol.

*"Mae'r Gronfa wedi gwneud y gwaith o rannu cyllid ar draws y sir yn bosibl ac wedi helpu i sicrhau y gallai pobl, busnesau a chymunedau lleol elwa ohono.*



*Mae'r cyllid wedi rhoi hwb i'n heconomi leol, wedi cefnogi'r gwaith o greu swyddi, ac wedi rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i lwyddo. Bydd cefnogi busnesau lleol i ganolbwyntio ar arloesedd a chynaliadwyedd yn sicrhau manteision hirdymor i'n cymunedau. Mae buddsoddi mewn prosiectau cymunedol wedi meithrin cydlyniant cymdeithasol ac wedi cael effaith uniongyrchol ar ein trefi a'n pentrefi.*

*Hoffwn ddiolch i'r holl grwpiau, sefydliadau a phrosiectau a wnaeth gais llwyddiannus am gyllid y Gronfa, am eu brwdfrydedd, eu gwaith a'u hymrwymiad i wneud Conwy yn lle bywiog i fyw, gweithio ac ymweld ag ef."*

**Y Cynghorydd Nigel Smith**
**Aelod Cabinet Economi Gynaliadwy**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus.cy

This document is also available in English.

# 1 Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyfarnwyd cyllid i 70 o brosiectau yng Nghonwy, a chefnogodd y Gronfa Allweddol adfywiad ein cymunedau lleol drwy helpu'r grwpiau, y sefydliadau cyhoeddus a'r mentrau lleol hyn i arwain wrth wella eu hardaloedd lleol yn amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Drwy gefnogi'r prosiectau a'r cynlluniau llai hyn ledled y sir, mae manteision y Gronfa wedi cyrraedd mwy o drigolion, cymunedau ac ymwelwyr.

**Cyngor Cymuned Trefriw:**

*"Mae'r llwyddiant hwn wedi bod yn hwb mawr i hyder y Cyngor Cymuned. Mae wedi dangos i ni y gallwn ni wneud cais am gyllid a bod yn llwyddiannus. Gwnaeth ennill y grant roi momentwm inni fynd ar drywydd cyfleoedd eraill, fel Cronfa Ffyniant Gyffredin Cymunedau a Lleoedd. Rydym ni ar hyn o bryd yn gwneud cais am gyllid i wella'r neuadd bentref drwy ei hinswleiddio a gwneud gwaith uwchraddio."*

**Pencadlys Youth Shedz ym Mochdre:**

*"Mae wedi rhoi sylfaen i ni, wedi cryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned, ac wedi ein helpu ni i fynd â'n sefydliad i'r lefel nesaf."*










# Cronfa Allweddol Cynyddu Gallu'r Sector Gwirfoddol

2

Dan arweiniad Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC)

Defnyddiwyd Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol i gryfhau'r sector gwirfoddol yng Nghonwy drwy wella gwydnwch, cynaliadwyedd a datblygu ar gyfer y dyfodol, drwy grantiau a hyfforddiant.

Roedd y prosiect yn cynnwys tair elfen:

- Cronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol wedi'i dyfarnu i sefydliadau'r trydydd sector yn Sir Conwy
- Cronfa Cymorth Gwirfoddolwyr i gynorthwyo sefydliadau trydydd sector yng Nghonwy i ddarparu treuliau gwirfoddolwyr
- Rhaglen Hyfforddi Cynyddu Gallu ar gyfer y trydydd sector yng Nghonwy.

**Dyfyniad gan CGGC:**

*"Trwy Gronfa Allweddol y Sector Gwirfoddol a Chronfa Cymorth Gwirfoddolwyr, derbyniodd dros 60 o sefydliadau gyllid ar gyfer eu prosiectau. Nod nifer o'r prosiectau hyn oedd cynnal gwasanaethau cymunedol hanfodol, cefnogi gwirfoddoli, a datblygu gallu sefydliadau lleol i ymateb i'r hinsawdd economaidd a chymdeithasol sy'n newid yn barhaus."*



*"Rhoddodd cyllid y Gronfa gyfle i CGGC gynnal dwy gynhadledd y trydydd sector, menter hollol newydd i ni. Roedd cynadleddau 2023 a 2024 yn ddigwyddiadau hynod o lwyddiannus, a'r nod oedd ysbrydoli trydydd sector Conwy, a rhoi'r sgiliau a'r hyder i sefydliadau a gwirfoddolwyr i barhau i ysgogi newid yn ein cymunedau."*



# 3 Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Defnyddiwyd Cronfa Allweddol Cefnogi Busnesau Lleol i ddarparu Grant Datblygu Busnesau i fusnesau bach a chanolig lleol i adnewyddu a datblygu ar gyfer y dyfodol. Cynigiwyd grantiau mwy rhwng £3,000 a £100,000 i gefnogi twf economaidd a chynaliadwyedd.

Cefnogwyd wyth deg dau o brosiectau ar draws pob sector gan gynnwys twristiaeth, manwerthu, gweithgynhyrchu lletygarwch a chynhyrchwyr bwyd a diod. Roedd £1.5 miliwn o fuddsoddiad preifat wedi'i gynnwys fel cyllid cyfatebol. Roedd y prosiectau'n amrywio o atyniadau newydd, cynnyrch a gwasanaethau newydd, i brosesau a thechnoleg newydd, ac yn cynnwys mesurau i leihau ôl troed carbon busnesau.

**Dyfyniad gan Continental Diamond Tool Ltd:**

*"Roedd y broses yn wych, ac yr oedd y gefnogaeth a roddwyd ochr yn ochr â'r cyllid yn ddidwyll. Mae cael y cyllid wedi newid popeth - mae wedi rhoi'r hwb yr oeddem ni ei angen i ehangu, cynyddu allbwn, cynnig cyfleoedd newydd yn y farchnad, a chreu mwy o swyddi."*







# 4 Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gwahoddwyd ceisiadau gan sefydliadau a darparwyr hyfforddiant i gyflwyno sgiliau a hyfforddiant hanfodol er mwyn datblygu sgiliau preswylwyr Conwy a rhoi hwb i’w hyder o ran rhifedd.

Cafodd un ar ddeg o brosiectau gyllid y Gronfa i gefnogi trigolion Conwy. Roedd y prosiectau’n cynnwys mynediad at leoliadau gwaith â thâl, datblygu sgiliau cyffredinol, hyfforddiant a chymwysterau i gefnogi gyrfaoedd yn y dyfodol. Roedd nifer o’r prosiectau hyn yn cefnogi’r rhai anoddaf eu cyrraedd, a’r nod oedd magu hyder unigolion, gwella eu sgiliau a chynnig cefnogaeth cyn cyflogaeth.

*“Mae Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Conwy y Gronfa wedi bod â rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi sefydliadau sy’n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau pobl. Drwy’r cyllid hwn, yr ydym ni wedi gweld prosiectau effeithiol sy’n chwalu rhwystrau cyflogaeth, yn gwella sgiliau ac yn gwella sgiliau rhifedd oedolion. Mae ymrwymiad ac arloesedd sefydliadau lleol wedi cryfhau ein cymunedau, gan greu cyfleoedd ystyrlon i unigolion ledled Conwy.”*








## 5 **Trawsnewid Meddyliau Ifanc - I2EM**


Dan arweiniad Cynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW)

Mae'r prosiect hwn wedi cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau mewn ysgolion i roi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau newydd sy'n gysylltiedig â gwaith, a rhoi cipolwg ar lwybrau gyrfa yn y sectorau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn rhanbarth Gogledd Cymru.


Roedd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o weithdai mewn ysgolion a oedd yn canolbwyntio ar sgiliau digidol fel codio ac argraffu 3D, dylunio ac electroneg a phrosiectau â themâu cynaliadwyedd, yn ogystal â digwyddiadau i bartneriaid yn y diwydiant i annog merched i astudio Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg.

**Dyfyniad gan Gynllun Addysg Beirianneg Cymru:**

*"Yn ystod y gweithdai, gwnaethom ni gyflwyno technoleg fel codio neu ynni adnewyddadwy a chysylltu cyfleoedd gyrfa posibl â'r diwydiannau sy'n eu defnyddio nhw. Er enghraifft, tynnodd ein gweithdy tyrbinau gwynt sylw at y mathau penodol o yrfaoedd sy'n rhan o'r sector ynni adnewyddadwy, yn gysylltiedig â nod Llywodraeth Cymru y bydd yr holl ynni a gynhyrchir yng Nghymru yn adnewyddadwy erbyn 2035. Gosododd hyn y sylfaen ar gyfer cyfleoedd swyddi newydd i'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr fanteisio arnynt."*







# 6 Gofal Plant ar Waith

## Dan arweiniad Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru)

Roedd y prosiect hwn yn cynnig rhaglen waith 16 wythnos o hyfforddiant a lleoliadau gwaith â thâl fel bod cyfranogwyr yn gallu dechrau eu gyrfaoedd mewn gofal plant ac addysg gynnar fel Cynorthwywyr Meithrinfa dan Hyfforddiant.

Roedd wedi'i anelu at oedolion economaidd anweithgar, unigolion di-waith a phobl sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth - helpodd i greu llwybr i yrfa mewn gofal plant ac addysg gynnar trwy gefnogi cyfranogwyr i ddod yn Gynorthwywyr Meithrinfa dan Hyfforddiant sy'n barod i weithio.

*"Dyma gam tuag at yrfa mewn gofal plant, un na fyddwn i wedi gallu ei chael ar fy mhen fy hun."*

**Dywedodd llefarydd ar ran y feithrinfa, sydd wedi cyflogi dau weithiwr drwy'r cynllun:**
*"Mae'r prosiect NDNA hwn wedi bod yn hollol wych, ac yr ydym ni mor falch ein bod ni wedi bod yn rhan ohono. Rydym ni'n edrych ymlaen at weld y grŵp nesaf y byddwn ni'n eu croesawu i'r feithrinfa."*

National Day Nurseries Association

*"Yn dilyn eu hamser ar y rhaglen, dechreuodd 12 o gyfranogwyr weithio. Dechreuodd 6 weithio yn y sector gofal plant, dechreuodd 5 cyfranogwr weithio fel Cynorthwywyr Addysgu mewn ysgolion cynradd (mae 1 o'r Cynorthwywyr Meithrinfa dan Hyfforddiant hyn hefyd yn gweithio ac yn cael oriau fel staff banc o fewn meithrinfa'r darparwr lleoliadau gwaith), 1 o fewn y sector gofal ac mae 1 cyfranogwr wedi mynd ymlaen i ddysgu pellach, gan gofrestru ar gwrs gradd gofal plant."*






# 7 TRAC

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Roedd y prosiect hwn yn rhoi cefnogaeth i bobl ifanc 11-16 oed a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol.

Mae gweithwyr lles TRAC wedi'u lleoli ym mhob ysgol uwchradd brif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion a gwnaethon nhw gefnogi pobl ifanc i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â dod yn NEET.

*"Mae llawer o agweddau gwerthfawr iawn i TRAC ac mae ein gweithiwr TRAC presennol wedi bod yn rhagweithiol iawn wrth ennill cymwysterau a chyrsiau o wahanol fathau i lawer o'n disgyblion sy'n eu galluogi nhw i ennill sgiliau ar gyfer y byd go iawn. Mae lles yn agwedd fawr arall ar gynllun TRAC yn ogystal â darparu profiad gwaith i lawer o'n dysgwyr. Mae TRAC yn adnodd hynod o werthfawr yma yn Ysgol Dyffryn Conwy."*





## 8 **Cyfiawnder mewn Diwrnod**
Dan arweiniad Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT)

Defnyddiodd y Prosiect Cyfiawnder mewn Diwrnod actorion proffesiynol a phartneriaid i archwilio materion allweddol am y system cyfiawnder troseddol a phobl ifanc. Nod y gweithdy oedd:

- Codi ymwybyddiaeth am y system cyfiawnder troseddol
- Deall canlyniadau gweithgareddau troseddol/gwrthgymdeithasol
- Archwilio effaith ymddygiad o'r fath ar y troseddwr, y dioddefwr a'r gymuned ehangach
- Deall goblygiadau hirdymor ymddygiad troseddol arnyn nhw eu hunain ac ar weddill y gymdeithas
- Annog perthnasoedd iach a dinasyddiaeth dda.

Cynhaliwyd pum gweithdy gydag ysgolion uwchradd a oedd yn cynnwys ymweliad â Llys yr Ynadon yn Llandudno. Cynhaliwyd deg gweithdy mewn ysgolion cynradd lleol.

*"Mae Cyfiawnder mewn Diwrnod yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sut mae'r system cyfiawnder troseddol yn gweithio ac, yn bwysig iawn, deall canlyniadau ymddygiad troseddol ar y troseddwr, y dioddefwr a'r gymuned gyfan. Mae'r gweithdai'n bwerus iawn ac yn annog dinasyddiaeth dda yn ystod cyfnod allweddol yn natblygiad ein pobl ifanc. Mae gweld pethau o safbwynt dioddefwyr a throseddwyr yn helpu pobl ifanc i ddeall pam mae trosedd wedi digwydd ac yna effeithiau'r ymddygiad hwnnw."*

**Sylwadau gan ddisgyblion a oedd yn bresennol:**

*"Mae angen i ni addysgu pobl ifanc nad yw cyffuriau'n gwneud unrhyw les i neb a bydd llawer o bobl yn cael eu heffeithio gan weithred un person."*

*"Rydyn ni wedi siarad am gyffuriau a'u heffeithiau yn yr ysgol ond mae heddiw wedi bod yn wahanol. Rwyf wedi dysgu llawer am sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio a'r gwahaniaeth rhwng llysoedd oedolion a llysoedd ieuenctid."*



## 9 Gwella a Diogelu'r Economi Ymwelwyr ar gyfer y Dyfodol

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu economi ymwelwyr yn Sir Conwy drwy:

- Gyfleoedd rhwydweithio a datblygiad pellach Rhaglen Llysgenhadon Twristiaeth Conwy, gan gynnwys creu Wythnos Llysgenhadon Twristiaeth Conwy
- Datblygu llwybrau lleol i gefnogi ymgyrch Blwyddyn Llwybrau 2023 Croeso Cymru gan gynnwys Treftadaeth Llandudno ac Alys yng Ngwlad Hud
- Datblygu ymgyrch twristiaeth dros y gaeaf i bennu Sir Conwy yn gyrchfan drwy gydol y flwyddyn a chynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu'r economi gyda'r nos yn Sir Conwy
- Datblygu a marchnata siop ar-lein y Ganolfan Groeso i Dwristiaid fel llwyfan i fusnesau lleol werthu eu cynnyrch yn genedlaethol.

*"Daeth digwyddiadau rhwydweithio ein Llysgenhadon Twristiaeth yng Nghonwy â dros 200 o bobl ynghyd i rannu eu gwybodaeth a'u profiad. Gwnaethon ni helpu pobl i ddod yn Dywyswyr Twristiaid Bathodyn Gwyn. Rydym ni hefyd wedi gallu adnewyddu'r cerfluniau ar hyd Llwybr Alys a chynhyrchu map a thaflen newydd i ymwelwyr."*






## 10 Tanio'r Fflam - Prosiect trawsnewid diwylliannol ar gyfer Sir Conwy

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gwnaeth y prosiect hwn ariannu cynlluniau cyflawni ar gyfer dwy strategaeth ddiwylliannol allweddol:

- Creu Conwy, Tanio'r Fflam - Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy 2021-2028
- Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy 2021-2026.

Roedd y gweithgareddau a'r hyn a ddarparwyd yn cynnwys:

- Prosiectau Diwylliannol: Arwyddion Llenwi, Gigs y Gaeaf, arddangosfeydd Oriel Colwyn, offer digwyddiadau symudol
- Timau Tref yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno, Llanrwst
- Gwytnwch sefydliadol: Cymorth Ymgynghorwyr NCompass i lyfrgelloedd, amgueddfeydd a grwpiau diwylliannol
- Meithrin sgiliau: 7 Swydd Prentis Diwylliannol
- Cynlluniau Lles: Taith ar gyfer Iechyd Meddwl, Cymunedol ar gyfer gweithgareddau cymunedol
- Llyfrgelloedd fel canolbwyntiau cymunedol: Ariannodd y Gronfa swydd ddynodedig a buddsoddiad cyfalaf i wella hygyrchedd trwy welliannau i'r isadeiledd digidol.

**Gigs y Gaeaf:**
*"I'n grŵp ni, gwnaeth y prosiect wahaniaeth mawr. Gwnaeth ganiatáu i'n grŵp ni gynnal digwyddiad yng Nghonwy a oedd ar raddfa fwy nag y byddem ni fel arfer yn gallu ei wneud. Gwnaethom ni gofnodi'r ffigurau uchaf erioed yn y digwyddiad hwnnw o ran y bobl a oedd yn bresennol."*

**Offer digwyddiadau symudol:**
*"Roedd y lifft symudol yn hollol wych a gwnaeth wahaniaeth mawr i Conwy Connect Got Talent yn Theatr Colwyn. Gwnaeth alluogi defnyddiwr cadair olwyn i berfformio ar y llwyfan ochr yn ochr â chyfoedion am y tro cyntaf erioed, gan greu profiad gwirioneddol gynhwysol a chofiadwy, a dangos y dylai llwyfannau fod yn hygyrch i bawb. Roedd ei gweld hi'n disgleirio â hyder yn arbennig iawn, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl heb y darn gwych hwn o offer, diolch!"*

**Prentisiaid Diwylliannol:**
*"Rwyf wedi cael llawer o brofiad mewn maes yr wyf i wedi bod eisiau gweithio ynddo erioed. Rwyf wedi cael cyfle i ddatblygu'n broffesiynol mewn ffordd yr wyf yn hapus iawn ag ef."*

*"Rwyf wedi dysgu bron popeth sydd angen i mi ei wybod yn y swydd drwy ddulliau ymarferol ac wedi cael cefnogaeth os oedd ei hangen arna i. Rydw i wedi cael hyfforddiant mewn meysydd mwy penodol, fel codi a symud yn gorfforol."*






# 11 Camau Cefnogol

Dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai

Gwnaeth y prosiect gynnig pecyn wedi'i deilwra o gefnogaeth mentora i bobl rhwng 16-25 oed sy'n pontio i Addysg Bellach a chynnig gwasanaeth iechyd meddwl a lles estynedig, a chefnogi eu taith ddysgu drwy'r coleg ac i gyflogaeth bosibl.

Mae'r gefnogaeth gofal estynedig wedi cael effaith gadarnhaol ar les dysgwyr: hyrwyddo perthnasoedd a ffyrdd o fyw iachach; gwella gwydnwch a galluogi dysgwyr i barhau i ymgysylltu â dysgu; eu grymuso nhw i symud tuag at ganlyniad cadarnhaol ar ddiwedd eu hastudiaethau â Grŵp Llandrillo Menai.

**Rheolwr Prosiect Lles:**

*"Drwy ganolbwyntio ar iechyd meddwl, lles, a datblygu sgiliau bywyd hanfodol, rydym ni'n helpu dysgwyr i barhau i ymgysylltu ag addysg yn ogystal â meithrin eu gwydnwch ar gyfer y dyfodol. Mae'r data'n dangos yn glir bod unigolion sy'n cael y gefnogaeth hon bellach yr un mor debygol o lwyddo a pharhau â'u cwrs â dysgwyr nad oes angen yr un lefel o ymyrraeth arnynt."*

*"Nodwyd bod Dysgwr A mewn perygl oherwydd presenoldeb isel (tua 65%), yn enwedig ar ddydd Llun, yn gysylltiedig â theithio ar benwythnosau. Ar un pwynt, gostyngodd presenoldeb y dysgwr i 22%. Ar ôl cael rhybudd llafar ym mis Tachwedd, dechreuodd y dysgwr fynychu ar ddydd Llun a dysgodd bod clwb Tenis Bwrdd yn cael ei gynnal yn ystod amser cinio. Ar ôl cael anogaeth gan gyfoedion, ymunodd y dysgwr â'r clwb ac yr oedd yn cymryd rhan yn rheolaidd, hyd yn oed gyda'r gwaith o helpu i osod a phacio'r offer. Ers ymuno â'r clwb, cododd presenoldeb y dysgwr i 73% erbyn mis Ionawr a 79% erbyn mis Mawrth. Mae'r dysgwr bellach yn mynychu tiwtorialau ar ddydd Llun yn gyson ac yn dangos mwy o frwdfrydedd, ac mae tiwtoriaid wedi nodi bod newid cadarnhaol yn ei agwedd a'i ymgysylltiad."*

Grŵp Llandrillo Menai



# 12 Y Cynllun Braenaru Talent Twristiaeth

Dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai

Mae’r Cynllun Braenaru’r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn gosod y seiliau ar gyfer sefydlu’r Rhwydwaith Talent Twristiaeth (Bargen Dwf Gogledd Cymru) er mwyn mynd i’r afael â phroblemau recriwtio, herio canfyddiadau negyddol a hyrwyddo cyfleoedd am yrfaoedd yn y sector twristiaeth.

Roedd y Cynllun Braenaru’n datblygu sgiliau a hyfforddiant i’r partneriaid i gyflymu datblygiad y Ganolfan Ragoriaeth yng Ngholeg Llandrillo.

Mae mwy na dau gant o blant ysgol o Gonwy wedi cael cyfleoedd gyrfa cyffrous ym maes twristiaeth a lletygarwch. Mae’r prosiect wedi helpu myfyrwyr ysgol ledled Conwy i ddarganfod y cyfleoedd cyffrous ac unigryw sydd gan y sector i’w cynnig yng Ngogledd Cymru.

Daeth y cogyddion a’r perchnogion busnesau gorau ynghyd i roi sgyrsiau, dangosiadau a gweithdai ysbrydoledig (a oedd yn cynnwys sesiynau blasu) a gwnaeth y disgyblion elwa o ddigwyddiad profiad gwaith yn Zip World ym Metws-y-Coed. Cafodd myfyrwyr ysgol hyd yn oed eu gwahodd i noson arbennig yng nghwmni’r cogydd enwog ac enillydd Great British Menu, Bryn Williams.

**Dywedodd disgybl a aeth i’r digwyddiad arbennig a gynhaliwyd gan Bryn Williams:**

*“Doeddwn i ddim yn disgwyl cael fy ngwahodd i ddigwyddiad fel hyn, roeddwn i mor falch o gael fy ngwahodd. Gwnes i fwynhau’n fawr iawn - roedd y prydau bwyd yn hyfryd, mae Bryn yn glên iawn. Rwyf wrth fy modd â’r syniad o hyn, a byddai’n wych gweithio yma un diwrnod!”*



**Dywedodd disgybl a aeth i’r digwyddiad profiad gwaith yn Zip World ym Metws-y-Coed:**

*“Roedd yn hwyl ac yn addysgol. Rwyf wedi dysgu llawer o bethau newydd sy’n digwydd y tu ôl i’r llenni, ac am yr holl swyddi a sut mae popeth yn cael ei redeg. Roedd yn hwyl ac yn addysgol - rwyf wedi dysgu llawer.”*



# 13 Gweithio'n Iach Conwy

Dan arweiniad Strategaeth Dinas y Rhyl

Roedd y prosiect hwn yn cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl i ddod o hyd i waith ac i aros mewn gwaith. Gall bod yn y swydd gywir helpu i wella lles cyffredinol a chefnogi adferiad o anawsterau iechyd meddwl. Mae rhaglen Gweithio'n Iach yn cynnig cefnogaeth arbenigol i helpu pobl ag anghenion iechyd meddwl i ddod o hyd i swydd addas.

Mae'r rhaglen ar gael i bobl sy'n byw yng Nghonwy, nad ydyn nhw mewn gwaith ar hyn o bryd, ac sydd â chyflwr iechyd meddwl fel:

- Iselder neu hwyliau isel
- Gorbryder
- Pyliau o banig
- Anhwylder obsesiynol-gorfodaethol (OCD)
- Anhwylder emosiynol.

*"O ganlyniad i gefnogaeth Gweithio'n Iach, llwyddais i gael swydd fel goruchwyliwr arholiadau, ac yna swydd ran amser mewn busnes teuluol bach lleol. Dim ond un diwrnod yr wythnos ydyw, weithiau mwy, ond dyna'n union yr oedd ei angen arnaf i fy helpu i gyrraedd lle gwell eto. Mae Gweithio'n Iach yn wasanaeth gwych, ac mae dull Debbie o drin ymgysylltu a chyflogadwyedd wedi chwarae rhan sylweddol yn fy natblygiad. Roedd Debbie fel ffrind, ac yr oedd ei chefnogaeth a'i hanogaeth yn fy ngrymuso i symud ymlaen â fy mywyd. Rwy'n llawer mwy hyderus nawr. Mae fy hyder wedi dychwelyd. Diolch, Gweithio'n Iach."*






# 14 Caru Cymru

Dan arweiniad Cadwch Gymru'n Daclus

Gwnaeth y prosiect hwn ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i greu a chefnogi sawl rôl gwirfoddoli a chyfleoedd cymunedol, gan gynnwys::

- Ehangu rhwydwaith o ganolfannau casglu sbwriel cymunedol, cefnogwyr casglu sbwriel gwirfoddol a chynllun parthau di-sbwriel
- Ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad
- Cysylltu ag Awdurdodau Lleol a Grwpiau Cymunedol i ganfod dulliau ac ymgyrchoedd addas i fynd i'r afael â phroblemau Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, fel baw cŵn, tipio anghyfreithlon a sbwriel twristiaid
- Sefydlu a chefnogi caffis atgyweirio, siopau ailddefnyddio/cyfnewid, amnestau gwastraff, siopau ailgylchu dros dro a gweithgareddau eraill i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, cynorthwyo pobl ar incymau isel a lleihau gwastraff
- Arolygon sbwriel blynyddol er mwyn nodi problemau cyson a dadansoddiadau i lywio camau gweithredu.

*"Creodd natur anffurfiol y digwyddiad amgylchedd hamddenol a chroesawgar, gan annog trigolion i gymryd rhan heb deimlo dan bwysau. Gwnaeth y dull hwn helpu i chwalu rhwystrau a meithrin cyfathrebu agored."*



cadwch gymru'n daclus keep wales tidy





I gael rhagor o wybodaeth am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yng Nghonwy, ewch i:

**www.conwy.gov.uk/cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government